ystadau cymru

Cydweithio i gael y gorau o'r ystad gyhoeddus
Working together to make the best use of the public estate

Llywodraeth Cymru
Welsh Government






Rhifyn 6



# Croeso i'ch Cylchlythyr Gwanwyn 2022

## Mae Gwobrau Blynyddol Ystadau Cymru yn ôl!
gweler tudalen 4

# Cynnwys

Cyflwyniad y Cadeirydd 3

Cyhoeddiadau 4

Gwobrau Ystadau Cymru 2022 4

Lansio Rhaglen Gydweithredu Cymru ar Asedau, Cam 3 (ACPW3) 5

Beth yw'r swyddogaeth newydd Mapio Coed ar MapDataCymru? 6

Rydych chi wedi clywed am Driongl Bermuda, ond ydych chi wedi clywed am Driongl Maendy? 7

Ydyn ni'n cymryd ein pridd yn ganiataol? 8

Awyru mewn Adeiladau 9

Astudiaeth achos - Effeithlonrwydd Ynni ar Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru 9

Cornel Clare 12

Hyfforddiant a dolenni diddorol 15

# Cyflwyniad y Cadeirydd



## Croeso i rifyn 6 o gylchlythyr Ystadau Cymru.

Rwy'n ddiolchgar ichi am neilltuo amser o'ch amserlen brysur i ddarllen y rhifyn newydd hwn. Rhaid dweud nad oes unrhyw arwyddion bod unrhyw ball ar yr holl alwadau sy'n cystadlu am ein hamser.

A hithau'n genedl noddfa, mae Cymru yn wynebu pwysau wrth i'r ymosodiad ar Wcráin gostio'n ddrud i bobl ac wrth i ffoaduriaid chwilio am gartrefi newydd yn ein gwlad. I'r rheini ohonom sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, mae hynny'n dod yn dynn ar sodlau COVID a'r ymdrechion arwrol bron a wnaed gan bawb yn ystad y sector cyhoeddus a chan reolwyr asedau i gydweithio er mwyn sicrhau'r gorau i bobl Cymru. Effeithiodd hyn oll ar ein gallu i wneud ein gwaith o ddydd i ddydd, ac mae'n dal i effeithio arno. Ond mae argyfwng y newid yn yr hinsawdd yn golygu bod angen inni newid ffocws ein gwaith o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau'r dyfodol di-garbon y mae'n plant a'n hwyrion yn ei haeddu.

Mae Cabinet Llywodraeth Cymru a'r timau arwain ym mhob un o'n cynghorau yn chwilio am ffyrdd o ddefnyddio'n hadeiladau'n well er mwyn darparu'n gwasanaethau i bobl Cymru. Drwy gydweithio, drwy gasglu data a gwneud penderfyniadau clir, rhaid inni benderfynu sut olwg fydd ar ystad gyhoeddus Cymru yn 2025 a 2030, a pha welliannau sydd eu hangen er mwyn gwella'r defnydd o ynni, hyrwyddo bioamrywiaeth a hyrwyddo ynni adnewyddadwy yn ein hadeiladau. Mae angen inni gydnabod hefyd y bydd hynny'n arwain at sefyllfa lle bydd gennym fwy o adeiladau nag y bydd eu hangen arnom. Gallwn drosglwyddo'r adeiladau hynny i rannau eraill o'r sector cyhoeddus neu i'r trydydd sector, neu gallwn eu haddasu at ddibenion gwahanol er mwyn eu gwerthu i'r sector preifat, neu gallwn weithio mewn partneriaeth i ddefnyddio cyfuniad amrywiol o'r opsiynau hyn.

O ran adeiladau newydd a sero-net, bydd angen inni fynd ati'n ofalus i gynllunio sut byddwn yn dylunio, yn adeiladu ac yn lleoli'r adeiladau er mwyn penderfynu sut orau i ddarparu gwasanaethau yn y ffordd fwyaf cynaliadwy. Mae hynny'n cynnwys gwneud adeiladau'n fwy hygyrch ym mhob ffordd bosibl a sicrhau bod gennym gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus o'r radd flaenaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi trosolwg strategol a cherrig milltir allweddol er mwyn cyrraedd ei nodau sero-net **Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd sector cyhoeddus Cymru | LLYW.CYMRU**

Yn ddiweddar, cafodd Bwrdd Ystadau Cymru gyflwyniad am y gwaith y dechreuwyd arno yn y Gogledd i ddatgarboneiddio ystad y sector cyhoeddus, er mwyn inni fedru rhannu'n gweledigaeth am ddyfodol gwell; mae'n siŵr y bydd gwaith o'r fath yn dechrau mewn rhannau eraill o Gymru, diolch i'r cyllid a sicrhawyd gan ein Gweinidog yn Llywodraeth Cymru, Rebecca Evans AS. Gallwch ddisgwyl darllen rhagor am y gwaith hwnnw, nid yn unig yn y cylchlythyr hwn, ond hefyd mewn cylchlythyrau yn y dyfodol.

I gloi'r cyflwyniad i'r rhifyn hwn, hoffwn dynnu sylw at brosiect ar garreg ein drws, yn ardal Maendy yng Nghasnewydd. Mae grŵp cymunedol gweithgar, Maindee Unlimited, wedi cymryd lesoedd hir ar adeiladau sy'n eiddo i Gyngor Dinas Casnewydd ac mae'n defnyddio'r asedau hynny i adfywio'r ardal leol. Rwy'n gobeithio y bydd eu profiadau nhw yn annog cymunedau eraill i feddwl am yr hyn sydd ei angen ar eu hardaloedd nhw a sut orau i gyrraedd y nod drwy fynd ati mewn ffordd greadigol i ddefnyddio asedau sy'n bodoli eisoes.




# Mae Gwobrau Blynyddol Ystadau Cymru yn ôl!

**Mae Gwobrau blynyddol Ystadau Cymru yn dathlu llwyddiant y sector cyhoeddus yng Nghymru wrth iddo gydweithio i reoli asedau ar draws y sector ac eleni, rydym wedi lansio'n Gwobrau'n gynnar. Cafodd y gwobrau eu lansio'n swyddogol eleni gan Gwobrau Ystadau Cymru 2022 | LLYW.CYMRU.**

Cafodd Gwobrau Ystadau Cymru 2022 eu lansio ar 8 Mehefin 2022. Yr unig beth sydd angen ichi ei wneud yw rhoi gwybod inni am brosiectau mawr neu fach ar draws ystad sector cyhoeddus Cymru lle buoch yn cydweithio'n llwyddiannus.

## Y dyddiad cau ar gyfer enwebu – 5pm ar 16 Medi 2022

## Dyma'r categorïau ar gyfer enwebiadau 2022:

-- Creu Twf Economaidd --

-- Cynaliadwyedd Amgylcheddol --

-- Rhoi Gwerth Cymdeithasol --

-- Creu Arloesedd --

Cymerwch gip ar enillwyr y llynedd, i gael blas go iawn o'r gwaith anhygoel sydd wedi cael ei wneud eisoes:
Cylchlythyr Ystadau Cymru: rhifyn 5 | LLYW.CYMRU

**Allech chi fod yn un o enillwyr Gwobr Ystadau Cymru 2022?**

# Lansio Rhaglen Gydweithredu Cymru ar Asedau, Cam 3 - (ACPW3)

## Bydd Rhaglen Llywodraeth Cymru ar Gydweithredu ar Asedau yn cael ei hail-lansio cyn bo hir. Hwn fydd trydydd cam y rhaglen.

**Bydd cynllun grant ACPW3 yn annog y sector cyhoeddus i gydweithio ar feysydd gwaith sy'n flaenoriaeth allweddo:**

- Darparu gofal iechyd sy'n effeithiol, sydd o ansawdd uchel ac sy'n gynaliadwy
- Gwneud ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur yn rhan annatod o'n gwaith
- Lleihau anghydraddoldeb addysgol
- Creu Economi Wyrddach a Chryfach wrth inni wneud cynnydd tuag at ddatgarboneiddio
- Lleihau anghydraddoldeb
- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd hyd yn oed yn well i fyw a gweithio ynddynt

**O ran y meysydd gwaith sy'n flaenoriaeth allweddol, bydd angen canolbwyntio'n benodol ar::**

- Wella cynaliadwyedd yr ystad gyhoeddus yng Nghymru; a
- Dileu'r rhwystrau sy'n ei hatal rhag cydweithio

**Bydd croeso arbennig i brosiectau sy'n cyfrannu at y nodau isod**:

- Datgarboneiddio adeiladau ac asedau cyhoeddus eraill
- Gwella bioamrywiaeth gan ddefnyddio asedau cyhoeddus
- Gwella cynaliadwyedd amgylcheddol gan ddefnyddio asedau cyhoeddus
- Creu neu gefnogi twf neu gadernid economaidd gan ddefnyddio asedau cyhoeddus
- Creu gwerth cymdeithasol gan ddefnyddio asedau cyhoeddus
- Arloesi gan ddefnyddio asedau cyhoeddus

**Cadwch lygad am lansiad ACPW3 ac am Ganllawiau'r grant i Ymgeiswyr. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso ichi anfon e-bost at** YstadauCymru@llyw.cymru



# Straeon nodwedd



## Beth yw'r swyddogaeth newydd Mapio Coed ar MapDataCymru?

Wrth i Lywodraeth Cymru gynnal archwiliad dwfn er mwyn dod o hyd i ardaloedd ledled Cymru lle gellid creu coetiroedd, cynhaliodd ysgrifenyddiaeth Ystadau Cymru arddangosiad gan MapDataCymru a'r Goedwig Genedlaethol a'n cyflwynodd i'r swyddogaeth newydd mapio coed sydd ar gael i bob corff yn y sector cyhoeddus.

Esboniodd y Goedwig Genedlaethol sut mae'r swyddogaeth newydd sy'n rhan o'r MapData yn darlunio cyfres o fapiau-stori ar draws ein rhanbarthau, gan ddangos sut gall coedwig genedlaethol weithio ar draws Cymru.

Dangosodd MapDataCymru y mapiau haen sylfaen sy'n helpu i greu darlun o leoliadau coed, a hefyd y swyddogaethau gwahanol sy'n helpu i greu arolygon ar blannu coed. Mae'r ddolen at "ble y dylem dyfu'n coedwig genedlaethol i'w gweld isod:
**https://mapdata.llyw.cymru/survey/2/**

Aeth MapDataCymru ati hefyd i ddangos sut i ddefnyddio'r swyddogaethau. Dangoswyd ardaloedd ledled Cymru lle gellid plannu coed, samplau o fapiau lle gall y defnyddiwr ddelweddu'r data a rhyngweithio â mapiau, er enghraifft, ar draws ardaloedd yr awdurdodau lleol, ardaloedd Cyfoeth Naturiol Cymru ac ardaloedd y byrddau iechyd lleol. Dangoswyd maint y canopi coed inni, y mathau o goed sy'n cael eu plannu a choed wedi'u bondocio, a dangoswyd ardaloedd lle gellir plannu coed oherwydd ansawdd yr aer. Aed ati hefyd yn ystod yr arddangosiad i ddangos ardaloedd o goetir cymunedol, sut mae cyrraedd y mannau hynny, ardaloedd lle gellir plannu coed er mwyn lleihau carbon, delweddau sy'n dangos y cysylltiadau rhwng ardaloedd o goetir, coetir hynafol a rhestr o ardaloedd sy'n werthfawr ar gyfer bioamrywiaeth. Mae'r mapiau hefyd yn dangos cysylltiadau â llwybrau beicio, cysylltiadau trafnidiaeth ac afonydd.

Roedd cael gweld sut y gallwn gyfrannu at greu coetir ehangach ledled Cymru yn rhywbeth calonogol a chyffrous.

**I gael rhagor o wybodaeth, gweler isod:**

Dolen at offer a data lle gallwch ddelweddu'r gofod coedwig cenedlaethol posibl
**https://storymaps.arcgis.com/collections/db09bcb722174bfeab27510b565ed2ba**

Dolen at MapDataCymru
**Hafan | MapDataCymru (llyw.cymru)**




## Rydych chi wedi clywed am Driongl Bermuda, ond ydych chi wedi clywed am Driongl Maendy?

I ddechrau'n cyfres ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol ledled Cymru, rydym am edrych ar y grŵp cymunedol Maindee Unlimited ac ar y gwaith y mae'n ei wneud i drawsnewid bloc toiledau segur yn gaffi cymunedol, yn fan awyr agored ac ie, yn doiledau cyhoeddus yng Nghasnewydd yn Ne Cymru.

Mae'r gwaith hwn yn dilyn proses lwyddiannus ym mis Medi 2017 pan drosglwyddwyd ased gymunedol Lyfrgell Maendy o berchenogaeth Cyngor Dinas Casnewydd. Ar ôl i'r toiledau lleol rhwng Heol Cas-gwent a Livingstone Place gael eu cau yn 2017, roeddent wedi mynd i gyflwr gwael.

Ar ôl i Maindee Unlimited fynd ati i drafod gyda'r perchennog, cafodd y toiledau lleol segur eu trosglwyddo i'r grŵp ym mis Mawrth 2021. Sicrhawyd caniatâd cynllunio i ailddatblygu'r safle, cafwyd cyllid dan raglenni cyfleusterau cymunedol Llywodraeth Cymru a chyllid arall oddi wrth y Loteri Genedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru. Disgwylir i'r caffi cymunedol agor yn haf 2022, gan roi cyfle i bobl leol wneud mwy yn eu cymuned eu hunain, a hyrwyddo mwy o siopa'n lleol.

Mae'r prosiect wedi cael sylw cadarnhaol yn y South Wales Argus a Wales Online. Mae rhagor o fanylion am Maindee Unlimited i'w gweld ar eu gwefan **Home | Building a New Maindee Together | Maindee.org**

Ydych chi wedi bod yn rhan o broses Trosglwyddo Ased Cymunedol ac ydych chi am rannu arferion da? Os felly, cysylltwch â ni drwy **ystadaucymru@llyw.cymru.** Mae'n bosibl y byddwn ni'n cynnwys yr hanes mewn rhifyn o'r Cylchlythyr yn y dyfodol.

I gael gwybodaeth am yr arferion gorau ym maes Trosglwyddo Asedau Cymunedol, ewch i: **Trosglwyddo Asedau Cymunedol: canllawiau i ymgeiswyr | LLYW.CYMRU**

# Ydyn ni'n cymryd ein pridd yn ganiataol?



**Mae Amanda Mark yn aelod o dîm Ysgrifenyddiaeth Ystadau Cymru ac yn ddiweddar, bu ar gwrs am Fioamrywiaeth a gynhaliwyd gan Nabod Natur. Roedd Amanda'n awyddus i ysgrifennu adroddiad personol am sut gwnaeth hi elwa ar y cwrs hwnnw.**

Yn ddiweddar, bûm ar gwrs am Fioamrywiaeth a gynhaliwyd gan Nabod Natur. Gwnaeth imi oedi a meddwl. Doeddwn i ddim yn gwybod bod cymaint o amrywiaeth i'w chael, yn enwedig mewn pridd. Rydym yn ei chymryd yn ganiataol ac mae'n cael effaith fawr ar ein planed!

Yn ystod y cwrs, dangoswyd lluniau o dirwedd basn afon a mynyddoedd inni, a gofynnwyd inni ystyried y rhannau gwahanol sy'n ei gwneud yn ecosystem. Mae disgrifiad syml o ecosystem i'w weld isod.

- Yr anifeiliaid a'r planhigion mewn ardal benodol, a'r berthynas rhyngddyn nhw a'r elfennau difywyd yn yr ardal, megis creigiau, priddoedd a hinsawdd.

**Cawsom dasg fach i'w chwblhau yn ein hamser ein hunain.**

- Arsylwi ar gynefin, ar berthynas neu ar ecosystem yn agos atoch chi a'i dal mewn llun, ffotograff neu ryw ffordd arall er mwyn ei dangos a'i thrafod yfory.

Wrth imi edmygu'r eirlysiau yn y llun isod, bûm yn meddwl am y ddaear oddi tanynt sy'n eu galluogi i dyfu. Dydyn ni ddim yn gweld nac yn llawn werthfawrogi'r pridd a'r pryfed sy'n gwneud i'r ecosystem hon weithio.



**Yn fy chwilfrydedd, fe wnes i ddarganfod:**

- Nid yw priddoedd yn ffurfio dros nos: maen nhw'n  ffurfio dros filoedd o flynyddoedd gan amlaf.
- Mae'r haen fyw hon o'n byd yn rhywbeth nad ydym yn ei werthfawrogi, ond rydym yn disgwyl iddo ddarparu'r holl fwyd sydd ei angen arnom.
- Mae miloedd o rywogaethau mewn un llawn llwy de o bridd.
- Bob blwyddyn, mae erydiad yn golchi miliynau o dunelli o bridd i dir ac afonydd.

Dyma ddolen at ragor o wybodaeth am fioamrywiaeth pridd, a allai fod o ddiddordeb ichi. Roedd o ddiddordeb mawr i mi!!
**ENV-09-038_soil-biodiversity-brochure-EN.indd (europa.eu)**

Chafodd nifer ohonom ddim cyfle i ddysgu am ecosystemau a'r hinsawdd yn ystod ein cyfnod ym myd addysg. Mae'r cwrs hwn yn rhoi amser a lle inni ddysgu mwy am ein byd mewn ffordd wyddonol. Rwy'n amgáu'r ddolen at gwrs Nabod Natur; byddwn wir yn ei argymell ac rwy'n credu y bydd yn agor eich llygaid os nad ydych yn ymwybodol o'r pwnc eang hwn.
**Nature Wise – Cynnal Cymru – Sustain Wales**

## Awyru mewn Adeiladau

A ninnau bellach wedi gweld y gwaethaf o'r pandemig a phobl yn dychwelyd i'r gweithle, mae cyfrifoldeb o hyd ar reolwyr asedau i sicrhau bod adeiladau cyhoeddus yn cael eu hawyru'n briodol ac yn dda. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod COVID-19 a feirysau eraill a drosglwyddir drwy'r awyr yn lledaenu mwy mewn mannau lle ceir awyru gwael, felly mae angen inni addasu a newid.

**Dyma rai dolenni defnyddiol ynglŷn â'r mater hwn**.

Ymgyrch newydd i geisio atal COVID-19 hanging around' - **GOV.UK (www.gov.uk)**
**Awyru yn y gweithle (hse.gov.uk)**



## Astudiaeth Achos

# Effeithlonrwydd Ynni ar Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru:

**Stori Llywodraeth Cymru Hyd yn Hyn...**

Gwnaethom ddechrau ar ein taith i greu ystad fwy effeithlon yn 2003 pan gawsom ein hachredu am y tro cyntaf dan y System Reoli Amgylcheddol (EMS). Ers hynny, rydym wedi croesawu'r her o sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan annatod o'n holl arferion busnes. Ar ôl datblygu System Ddeallus i Reoli Adeiladu, rydym wedi llwyddo i ddarparu amgylchedd gwaith dymunol i staff, a gwelwyd gostyngiad mawr yn ein defnydd o ynni. Rhwng 2010/11 a 2021/22 rydym wedi llwyddo i sicrhau gostyngiad sylweddol o 76% mewn carbon sy'n gysylltiedig ag ynni.

Gan weithio mewn partneriaeth agos â'n contractiwr Rheoli Cyfleusterau Caled (HFM), gwnaethom gynnal adolygiad cynhwysfawr o'n gweithdrefnau presennol a mynd ati wedyn i ddatblygu a gweithredu cynllun pwrpasol i leihau carbon, sy'n gysylltiedig â'n Strategaeth Cynaliadwyedd.

Rydym wedi gwneud arbedion sylweddol o ran ynni drwy **reoli ynni mewn dwy ffordd**. Yn ein swyddfeydd **hŷn**, mwy sefydledig, gwnaethom benderfynu wneud y gorau o'r systemau a oedd ar waith eisoes. Rydym wedi cywiro prosesau problemus a gwastraffus drwy ailddylunio prosesau fel aerdymheru, systemau dŵr poeth domestig ac oeryddion sy'n defnyddio llawer o ynni. Mabwysiadwyd yr ail ffordd ar gyfer **gwaith adeiladu newydd** neu waith ar raddfa fawr i adnewyddu'n swyddfeydd ar yr ystad. Yn unol â Chyfarwyddeb Ewrop ar Berfformiad Ynni Adeiladau (EPBD) a BREAAM, gwnaethom ymchwilio i **atebion carbon isel a'u cynnwys yn ystod y cam dylunio**.

Mae'r cyfuniad o'r ddwy fethodoleg wedi cadarnhau'r ffaith bod dylunio syml, ynghyd ag arferion gorau'r diwydiant, yn gallu arwain at greu adeiladu sydd â'r perfformiad gorau o ran ynni.
Mae'r camau penodol a gymerwyd yn cynnwys:

- Gwneud swyddogaeth peirianneg ynni yn rhan annatod o'n contract Rheoli Cyfleusterau Caled (HFM)
- Archwiliadau ynni manwl, rheolaidd sy'n cael eu cynnal gan arbenigwyr
- Ailddylunio'r System Rheoli Ynni mewn Adeiladau, gan ymgorffori targedau ynni lleol.
- Gosod systemau gwres biomas ar 3 safle.
- Cyflwyno mesuryddion clyfar ym mhob swyddfa.
- Creu polisi tymheredd pwrpasol.
- Monitro'r defnydd o ynni yn drwyadl, gan ddefnyddio platfform rheoli ynni ar-lein.
- Inswleiddio pibellau, fflansys a falfiau.
- Gosod paneli ffotofoltäig ar amryfal safleoedd.
- Cyflwyno systemau goleuadau LED deallus sy'n pylu yn ôl yr angen yng ngolau dydd ac sy'n synhwyro presenoldeb.

Rydym yn falch iawn o'r hyn a gyflawnwyd hyd yma ond rydym yn deall bod yn rhaid i'n taith barhau wrth i heriau newydd ddod i'r amlwg. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydyn ni, fel pawb ym mhedwar ban byd, wedi gorfod **ymdopi â thywydd eithafol,** sydd wedi arwain at lifogydd mawr mewn dwy o'n prif swyddfeydd. Bu'n rhaid inni hefyd fynd i'r afael â'r pandemig Covid.

Bydd yr amgylchiadau digynsail hynny'n llywio'r camau y byddwn yn eu cymryd yn y dyfodol, ac yn golygu y bydd angen inni fynd ati i'w cymryd yn gynt. Nid ar chwarae bach y byddwn yn **gwireddu'n huchelgais Sero-Net** erbyn 2030, ond byddwn yn parhau i anelu'n uchel ac i weithio mewn **partneriaeth** â'n rhanddeiliaid.

Byddwn yn defnyddio **technolegau arloesol** pan fydd modd ac yn ymchwilio i arbedion effeithlonrwydd heblaw am  y rheini sy'n gysylltiedig â defnyddio ynni, gan gynnwys arbedion effeithlonrwydd wrth reoli dŵr a gwastraff, bioamrywiaeth a'r gadwyn gyflenwi.

# Rheoli Carbon

## ar draws Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

### Ar draws yr Ystad

- Cynyddu effeithlonrwydd ynni adeiladau drwy brosiectau cyfalaf ac optimeiddio
- Mesuryddion, monitro a thargedu ar y rhyngrwyd
- Inswleiddio pibellau, cantelau a falfiau
- Polisi Tymheredd Adeiladau diwygiedig
- Tapiau trydanol sy'n cynhesu dŵr ar unwaith
- Wrinalau heb ddŵr mewn amrywiol safleoedd
- Arolygon adeiladau yn rheolaidd.





### Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno

- Boeler biomas
- Falfiau parth ar gyfer system wresogi
- Oeri aer gan ddefnyddio'r pwll dŵr
- Aer oer o ffenestri awtomatig
- System fecanyddol i oeri ystafelloedd gweinyddion

### Rhodfa Padarn, Aberystwyth

- System wresogi'r gan ddefnyddio boeler biomas
- Aer oer o ffenestri awtomatig
- System fecanyddol i oeri ystafelloedd gweinyddion
- Paneli solar ffotofoltaig yn y maes parcio

### Rhyd-y-car, Merthyr Tudful

- Boeler biomas wedi'i osod
- Peiriannau monitro ansawdd aer a pheiriannau i sicrhau cyflenwad o awyr iach
- Goleuadau LED yn y grisiau a'r toiledau

### Heol Picton, Caerfyrddin

- Adeilad wedi'i adnewyddu'n bwrpasol i arbed ynni
- Paneli solar ffotofoltaig ar y to

### Llys-y-Ddraig, Abertawe

- Ailwampio'r to
- Optimeiddio systemau rheoli'r adeilad

### Parc Cathays, Caerdydd


- Ailbeiriannu system wresogi
- Uwchraddio system reoli'r adeilad
- Awyru'r maes parcio yn seiliedig ar fonitro $CO_2$
- Lleihau goleuadau yn ystod y nos

### Tŷ'r Afon, Bedwas

- System oeri wedi'i huwchraddio

OGL WG36626 © Hawlfraint y Goron 2019

# Cornel Clare




**Hoffem eich cyflwyno i Clare Philips, ein Rheolwr Cynaliadwyedd newydd yn Ysgrifenyddiaeth Ystadau Cymru. Mae gan Clare brofiad eang ym maes cynaliadwyedd a rheoli asedau a bydd ganddi golofn reolaidd yn ein cylchlythyr chwarterol.**

### Yn y rhifyn hwn…

## Tyfu Sefydliad Cynaliadwy: y Colofnau Datblygu Cynaliadwy

Gall creu sefydliad cynaliadwy, a sicrhau ei fod yn parhau'n gynaliadwy wedyn, fod yn fater anodd o gadw'r ddysgl yn wastad rhwng blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd mewn brwydr i gael gydnabyddiaeth. Drwy **ymgorffori egwyddorion** allweddol datblygu cynaliadwy, gallwn ddechrau sicrhau bod ein blaenoriaethau'n gydnaws â'i gilydd a gallwn nid yn unig ddiogelu'r amgylchedd naturiol ond mabwysiadu arferion busnes mwy effeithlon sy'n fuddiol i staff, y gymuned leol a'r genedl gyfan. Mae **tair colofn cynaliadwyedd**, a dyfodd o'r cysyniad na ddylid ystyried datblygu heb feddwl am yr amgylchedd, yn cynnwys dimensiynau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Drwy gadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr agweddau hyn, rydym yn dechrau llunio gweledigaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy, ond a yw'n mynd yn ddigon pell?! Mae Deddf **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn nodi mai datblygu cynaliadwy yw'r 'broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru'. Felly sut mae mynd ati i ddiffinio'r agweddau hyn a sut mae eu rhoi ar waith? **Felly sut rydym yn diffinio'r agweddau hyn a sut y gallwn eu rhoi ar waith?**



## Cynaliadwyedd Diwylliannol

Yr hyn a olygir wrth **Gynaliadwyedd Diwylliannol** yw integreiddio diwylliant i'n holl waith polisi. O ymgorffori dimensiwn diwylliannol, gellir creu polisïau sy'n **fwy cynhwysol ac sy'n canolbwyntio mwy ar bobl ac sydd, ar yr un pryd, yn creu swyddi newydd, yn gwella sgiliau ac yn meithrin ymddygiad cadarnhaol sydd o fudd i'r amgylchedd naturiol**. Mae UNESCO wedi creu fframwaith o nodau a all ddiogelu a hyrwyddo amrywiaeth o ran mynegiant. Dyma rai o'r dangosyddion allweddol:

- Datblygu polisïau sy'n helpu i greu sectorau diwylliannol a chreadigol **deinamig**, e.e. mentrau digidol a chyfryngau amrywiol.
- Creu polisïau a rhaglenni gweithredol sy'n helpu o ran **symudoledd** gweithwyr proffesiynol ac artistiaid diwylliannol.
- Cefnogi **llifau** rhyngwladol cytbwys o nwyddau a gwasanaethau diwylliannol, a thegwch wrth ddosbarthu adnoddau diwylliannol ac o ran gallu pobl i fanteisio arnynt.
- Hyrwyddo a diogelu rhyddid pobl i fynegi'u hunain yn ddiwylliannol ac i gyfranogi mewn diwylliant.

(Ffynhonnell: **Re|shaping policies for creativity: addressing culture as a global public good - UNESCO Digital Library**)

## Cenhedloedd Unedig

Yn ôl y Cenhedloedd Unedig, ystyr Cynaliadwyedd Cymdeithasol yw '**nodi a rheoli'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mae busnesau'n eu cael ar bobl**', gyda'r nod ...'o sicrhau bod pob proses fusnes o fudd i gymdeithas ac yn gwarchod pobl'. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod diffyg datblygiad cymdeithasol (tlodi, anghydraddoldeb a deddfu gwan) yn gallu bod yn rhwystr mawr sy'n llesteirio gweithrediadau busnes a thwf, felly, gall sicrhau **cynaliadwyedd cymdeithasol** fod o fudd mawr. Gall y canlyniadau cadarnhaol gynnwys: denu a chadw partneriaid busnes; datblygu cynnyrch arloesol; gwella morâl ymhlith y staff; lleihau risg yn y gweithle a gwella ymgysylltiad â'r gymuned leol.

Mae'r **camau** y gellir eu cymryd er mwyn datblygu cynaliadwyedd cymdeithasol yn cynnwys meysydd fel:

- Diogelu hawliau dynol a chynnig **cyfleoedd cyfartal** i bawb.
- Creu swyddi sy'n rhoi boddhad ac sy'n talu cyfraddau **cyflog byw.**
- Datblygu cadwyni cyflenwi mwy cynhwysol sy'n ychwanegu gwerth at brosesau caffael drwy ffafrio nwyddau a gwasanaethau sy'n cynnig **gwell manteision i gymunedau.**
- Ffurfio partneriaethau â sefydliadau a grwpiau cymunedol eraill er mwyn cefnogi newid cadarnhaol.

(Ffynhonnell: **Social Sustainability | UN Global Compact**)

## Cynaliadwyedd Economaidd

Mae **Cynaliadwyedd Economaidd** yn cael ei ddiffinio gan yr egwyddor bod yn rhaid inni **ymwrthod â phrosesau gwastraffus nad ydynt yn rhoi unrhyw ystyriaeth i'r dyfodol a chymryd camau sy'n diogelu lles y blaned yn yr hirdymor**. Drwy greu arferion a pholisïau yn ein sefydliadau sy'n galluogi twf economaidd heb ddifrodi'r amgylchedd naturiol, gallwn ddiogelu bywydau pobl, sicrhau bod gweithgarwch economaidd yn hirhoedlog, a mynd ati yn y dyfodol i ddatgloi potensial naturiol sydd heb ei ddarganfod eto. **Sut mae sicrhau cynaliadwyedd economaidd**?

Dyma rai enghreifftiau:

- Datblygu **systemau llai gwastraffus** – defnyddio tir mewn ffordd fwy cynaliadwy, llai dwys, a chadwyni cyflenwi mwy cynaliadwy.
- Rhoi blaenoriaeth i dwf economaidd sy'n isel ei effaith – buddsoddi yn yr economi 'werdd'
- Newid i ffynonellau ynni adnewyddadwy

(Ffynhonnell: **Economic Growth - United Nations Sustainable Development**)

## Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae **Cynaliadwyedd Amgylcheddol** yn hyrwyddo **defnydd cyfrifol o adnoddau naturiol** drwy warchod cyfalaf naturiol a diogelu ecosystemau byd-eang ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dyma'r egwyddorion arweiniol::

- Datblygu **ffynonellau adnewyddadwy** o ynni yn lle'r rhai anadnewyddadwy presennol
- Sicrhau **nad** yw'r gwastraff a gynhyrchir (llygredd) yn fwy nag y gall yr amgylchedd ymdopi ag ef
- Sicrhau bod cyfraddau **adfywio naturiol** yn gallu cynnal y cyfraddau cynaeafu

Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, roedd 24% o'r marwolaethau ledled y byd yn 2016 yn ganlyniad i risgiau amgylcheddol addasadwy. Mae cysylltiad hanfodol felly rhwng cynaliadwyedd amgylcheddol ac ansawdd bywyd a'n lles meddyliol. Felly, pa gamau gallwn ni eu cymryd? Rhoddir rhai enghreifftiau isod:

- Defnyddio llai o gynhyrchion tafladwy a phrynu nwyddau ac ynddynt lawer o ddeunyddiau sydd wedi'u hailgylchu
- Lleihau'r defnydd o ynni a dŵr a chyfyngu ar wastraff bwyd
- Prynu nwyddau sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol gan gwmnïau sy'n hyrwyddo prosesau cynaliadwy
- Caffael ynni adnewyddadwy a/neu osod technolegau adnewyddadwy
- Gwarchod cynefinoedd naturiol a gwella bioamrywiaeth lle bo modd

(Rhagor o wybodaeth: **Policies and strategies | UNEP - UN Environment Programme**)
Mae'n amlwg bod yn rhaid wrth bob un o'r pedair agwedd er mwyn cyrraedd ein nodau cynaliadwyedd. Yr economi sydd wedi cael blaenoriaeth ers amser maith a'r amcan allweddol yw gwneud elw ar draul pobl a'r blaned.

**Onid yw'n bryd inni edrych o'r newydd ar ein blaenoriaethau a rhoi cyfle i gynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ffynnu?!**

# Hyfforddiant a dolenni diddorol

## Cynaliadwyedd

Mae Cyfeiriadur Hyfforddiant Cynaliadwyedd wedi cael ei greu a'i ddosbarthu i aelodau Ystadau Cymru. Mae'r cyfeiriadur yn tynnu sylw at rai o'r cyrsiau hyfforddi gorau a ddarperir yng Nghymru a chan sefydliadau siartredig, ac mae'n ymdrin ag amrywiaeth o feysydd pwnc, gan gynnwys bioamrywiaeth, rheoli ynni a chaffael. Rydym yn rhestru rhai sefydliadau allweddol a'u dolenni isod.

- Y Sefydliad Ynni
- Y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff
- Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
- Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi
- Y Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol

Os hoffech gael copi llawn o'n Cyfeiriadur Hyfforddiant, cysylltwch â blwch post **YstadauCymru@llyw.cymru.**

## Asbestos

**HSE**
Canllawiau ar eich dyletswydd i reoli asbestos mewn adeiladau
HSE - Dolen at wybodaeth sy'n codi ymwybyddiaeth am asbestos
**www.hse.gov.uk/asbestos/duty.htm**

### Y Gyfadran Asesu a Rheoli Asbestos (FAAM)

Y Gyfadran Asesu a Rheoli Asbestos (FAAM) yw'r cartref proffesiynol ar gyfer ymarferwyr sy'n rheoli ac yn asesu asbestos

**www.bohs.org/membership/for-individuals/working-professional/faam-membership/**

## Bioamrywiaeth

**Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**

Mae'n werth cael cip ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i ddysgu am ei gwaith, am yr hyn y mae'n ei wneud ac am ei hamcanion. Mae gwybodaeth yno hefyd am ddigwyddiadau a newyddion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth.
Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - Hafan (**biodiversitywales.org.uk**)

**Bydd cynhadledd Bioamrywiaeth Cymru yn cael ei chynnal yn hydref 2022**

**www.biodiversitywales.org.uk/Cynhadledd**

Os hoffech danysgrifio i dderbyn ein Cylchlythyr, os oes gennych unrhyw awgrymiadau am bynciau y gallem roi sylw iddyn nhw yn ein rhifyn nesaf neu os hoffech gael eich ystyried ar gyfer y stori nodwedd, cysylltwch ag **YstadauCymru@llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG45224 ISBN digidol xxxxxxxx